PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU OEDOLION A CHYMUNEDOL

DYDD MERCHER, 10 HYDREF 2018

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd McGarry(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Ahmed, Goddard, Jenkins, Kelloway, Lent a/ac Molik |

18 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr Ebrahim a Carter.

19 : DATGAN BUDDIANNAU

Dim.

20 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Medi 2018 yn gofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

21 : DEDDF RHEOLEIDDIO AC AROLYGU GOFAL CYMDEITHASOL (CYMRU) 2016

Croesawodd y Cadeirydd i'r cyfarfod y Cynghorydd Susan Elsmore Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol, Iechyd a Llesiant a Claire Marchant Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol i’r cyfarfod.

Dywedodd y Cadeirydd fod yr eitem hon yn galluogi'r Aelodau i gael trosolwg o'r dyletswyddau a'r cyfrifoldebau sydd gan y Cyngor a'i bartneriaid mewn perthynas Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016. Byddai'n cynnwys cyflwyniad yn nodi goblygiadau'r Ddeddf i Gyngor Caerdydd a'i bartneriaid.

Estynnodd y Cadeirydd wahoddiad i'r Aelod Cabinet wneud datganiad lle dywedodd hi fod hwn yn sesiwn friffio fwy technegol gan fod y mater yn y cyfnod cynnar i Gaerdydd ar hyn o bryd. Ychwanegodd ei bod yn rhan bwysig o'r ffordd rydym yn diwallu anghenion unigolion dan y Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Cafodd yr aelodau gyflwyniad ar Ddeddf 2016 ac wedyn gwahoddodd y Cadeirydd am gwestiynau a sylwadau ganddynt;

Nododd yr Aelodau mai dim ond 30% o bobl oedd â chymhwyster i gofrestru a gofynnwyd a oedd angen mwy o hyfforddiant ar bobl er mwyn iddynt allu cofrestru. Esboniodd y swyddogion y byddai angen cofrestru'r cymhwyster cymhwysedd yn seiliedig ar sgiliau, ac y byddai hyn yn cael ei wneud drwy broses asesu. Nododd swyddogion fod hyn yn gryn ymrwymiad i rai pobl, yn enwedig y rhai nad oeddent ar gontractau oriau penodol.

Gofynnodd yr Aelodau a fyddai hyn yn achosi mwy o broblemau o ran recriwtio a chadw staff. Dywedodd swyddogion fod hyn yn risg sylweddol go iawn. Ychwanegodd y swyddogion fod gan Gaerdydd farchnad gofal cartref weithredol a'i

bod mewn gwell sefyllfa na rhai awdurdodau lleol eraill, ond ni ddylai'r risgiau gael eu tanchwarae ac ni fydd rhai pobl am fynd drwy'r broses hon. Roedd yn bwysig penderfynu a oedd digon yn cael ei wneud i annog pobl i ystyried Gofal fel gyrfa, bydd tasg ac amser yn helpu ond roedd mwy i'w wneud. Byddai gweithio gyda darparwyr, darparwyr addysg bellach ac aseswyr yn bwysig er mwyn cefnogi pobl i ennill y cymwysterau. Byddai cyfathrebu uniongyrchol â Llywodraeth Cymru hefyd yn bwysig wrth fynd drwy'r broses hon.

Gofynnodd yr Aelodau beth fyddai'n digwydd pe na bai'r amserlenni'n cael eu bodloni a dywedodd swyddogion mai dyma lle y byddai'r cyfathrebu da â Llywodraeth Cymru yn bwysig, pe byddai angen addasu'r amserlenni os bydd y risgiau'n rhy fawr.

Holodd yr Aelodau am y costau a faint o amser y mae'n ei gymryd i gael y cymhwyster. Nid oedd gan swyddogion y costau a'r amserlen ar gyfer y cymhwyster a chytunwyd i ddarparu'r rhain ar ôl y cyfarfod. Dywedodd swyddogion mai’r gost cofrestru oedd £35.

Gofynnodd yr Aelodau a oedd risg y gallai rhai darparwyr roi'r gorau i'w gwaith gan y gallai'r broses fod yn rhy feichus, a gofynnwyd os oedd asesiad wedi’i wneud o’r risg hon. Dywedwyd wrth yr Aelodau nad oedd asesiad risg uniongyrchol wedi'i gynnal ond bod cyfarfodydd a deialogau rheolaidd yn cael eu cynnal ar y fforwm gyda'r darparwyr. Ychwanegodd swyddogion fod y sector yn wedi ymrwymo ac yn gweithio gyda Chaerdydd ac nad oedd neb wedi dweud eu bod am adael y farchnad eto. Ychwanegodd yr Aelod Cabinet nad oedd hi wedi clywed unrhyw bryderon gan ddarparwyr.

Gofynnodd yr Aelodau â phwy oedd angen i'r bobl gofrestru ac fe'u cynghorwyd y byddai pobl yn cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru ac y byddai'r darparwyr yn cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru.

Gofynnodd yr Aelodau a oedd darparwyr yn cyrraedd y ddemograffeg ehangach sydd angen y gwasanaethau gofal. Roedd y swyddogion yn cytuno bod hwn yn fater ehangach ac eglurodd y byddai llawer o gymorth unigol arall yn dal i gael ei roi i bobl i aros yn annibynnol heb y broses gofrestru hon.

CYTUNWYD: Bod y Cadeirydd ar ran y Pwyllgor yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet yn cyfleu arsylwadau’r Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

## 22 : PECYN CYMORTH CYDRADDOLDEB A HAWLIAU DYNOL I GYNGHORWYR AR DAI HYGYRCH

Croesawodd y Cadeirydd Geraint Rees o'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a Ceri Meloy o Tai Pawb i'r cyfarfod.

Dywedodd y Cadeirydd wrth yr Aelodau mai papur briffio i Aelodau'r Pwyllgor oedd yr eitem hon ar gynnwys y Pecyn Cymorth Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i Gynghorwyr ar Dai Hygyrch a gyhoeddir yn fuan.

Cafodd yr aelodau gyflwyniad ac wedyn gwahoddodd y Cadeirydd am gwestiynau a sylwadau ganddynt;

Gofynnodd yr Aelodau ai dogfen lobïo oedd hon ac fe'u cynghorwyd nad oedd - pecyn cymorth i gefnogi cynghorwyr yn eu rôl ydyw.

Gofynnodd yr Aelodau a fyddai'r ddogfen yn cael ei hanfon at bartïon eraill fel Cymdeithasau Tai ac fe'u cynghorwyd mai'r bwriad oedd rhannu'r ddogfen yn eang ac i unrhyw un sydd â phenderfyniadau i'w gwneud ar faterion tai.

Nododd yr Aelodau'r cyfeiriad at brinder cronig o dai hygyrch a gofynnwyd a oedd hyn mewn perthynas â thai hygyrch o ansawdd da yn hytrach nag yn gyffredinol. Dywedwyd wrth yr Aelodau ei fod yn golygu bod prinder dybryd o dai hygyrch a hyblyg, bod safonau cartrefi gydol oes yn bwysig er mwyn diogelu'r stoc dai.

Gofynnodd yr Aelodau beth y mae angen i Gaerdydd ei wneud i wella'r maes hwn. Dywedwyd wrth yr Aelodau nad oes angen i Gaerdydd wneud unrhyw beth yn wahanol i awdurdodau lleol eraill. Mae rhai materion yn faterion Cenedlaethol fel safonau Tai. Ychwanegodd Geraint Rees fod y data sydd gan awdurdodau lleol yn bwysig, byddai gwell data yn helpu wrth wneud penderfyniadau a chynllunio.

Nododd yr Aelodau fod Caerdydd yn wahanol iawn i awdurdodau lleol eraill yng Nghymru a gofynnwyd beth y mae'n ei wneud yn well neu'n wahanol i eraill. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod gan Gaerdydd y gofrestr tai hygyrch a'i bod yn arwain y ffordd ar lawer o bethau. Caerdydd oedd yr awdurdod lleol cyntaf i fodloni Safonau Ansawdd Tai Cymru; mae'r Aelod Cabinet dros Dai yn cymryd rhan lawn, ac roedd cyfarfodydd craffu Caerdydd wedi'u harsylwi ac maent yn gadarnhaol iawn.

Nododd yr Aelodau fod problem yn bodoli lle'r oedd cartrefi'r Cyngor yn cael eu haddasu, ac ar ddiwedd y denantiaeth, roedd yr addasiadau'n cael eu tynnu allan a gofynnwyd a oedd hyn yn dal i ddigwydd. Dywedwyd wrth yr Aelodau bod hyn dal yn digwydd ledled Cymru ond nid yng Nghaerdydd mwyach, mae'r gofrestr tai hygyrch yn helpu. Dim ond 7 awdurdod lleol sydd â chofrestr o'r fath ac mae angen diffiniad Cenedlaethol.

Gofynnodd yr Aelodau sut y gall Craffu gefnogi'r pecyn cymorth ac fe'u cynghorwyd y byddai defnyddio'r pecyn cymorth, ei rannu a darparu adborth yn ddefnyddiol.

Gofynnodd yr Aelodau faint roedd y pecyn cymorth wedi costio i'w gynhyrchu a phwy oedd wedi ei ariannu. Dywedwyd wrth yr Aelodau ei fod wedi cael ei ariannu gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a'i fod wedi cael ei ariannu gan Lywodraeth y DU. Nid oedd unrhyw wybodaeth ar gael o ran y gost.

Gofynnodd yr Aelodau beth oedd ymateb Llywodraeth Cymru i'r ddogfen ac fe'u hysbyswyd bod y Safonau Gwasanaeth Cenedlaethol a lansiwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru wedi dod allan o'r dystiolaeth ar wahaniaeth yn y pecyn cymorth.

Gofynnodd yr Aelodau pa mor hyblyg yw cartrefi Caerdydd i bobl anabl. Dywedodd Geraint Rees ei bod yn amlwg bod her gyda'r hen stoc dai ond y dylid canolbwyntio ar y safonau adeiladu ar gyfer adeiladau newydd. Bydd yr ymdrechion i gael cartrefi llai a rhatach yn achosi problemau yn y dyfodol ac roedd angen buddsoddiad hir-dymor i ddiogelu'r stoc dai.

CYTUNWYD: Bod y Cadeirydd ar ran y Pwyllgor yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet yn cyfleu arsylwadau'r Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

## 23 : FFRAMWAITH CYNNAL A CHADW ADEILADAU – MATERION RHEOLI EIDDO GWAG

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Thorne, Aelod Cabinet - Tai a Chymunedau; Sarah McGill, Cyfarwyddwr Corfforaethol - Pobl a Chymunedau; Jane Thomas, Cyfarwyddwr Cynorthwyol - Tai a Chymunedau; ac Ellen Curtis, Rheolwr Gweithredol Gwasanaethau Landlord, i'r cyfarfod.

Cyn trafod yr eitem hon, gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelod Cabinet a'r swyddogion i roi sylwadau ar yr eitem a'r drafodaeth flaenorol.

Dywedodd y Cynghorydd Thorne ei bod yn croesawu'r gwaith a oedd yn cael ei wneud a bod cartrefi am oes ar agenda'r Cyngor. Gan gydnabod ei fod yn bwnc emosiynol, esboniodd y Cynghorydd Thorne fod Caerdydd yn gweithio'n galed i gael pobl allan o'r ysbyty ac yn ôl i'w cartrefi'n gyflym ac felly bod angen i'r cartrefi fod yn addas.

Roedd Sarah McGill hefyd yn croesawu'r gwaith, gan nodi bod y sefyllfa'n amrywio ledled Cymru, yn enwedig o ran cartrefi hygyrch a hyblyg. Rhoddwyd ychydig o wybodaeth ysgrifenedig i Aelodau'r Pwyllgor am gartrefi'n cael eu hadeiladu ac maent yn gweithio gyda phartneriaid datblygwyr lle y disgwylir hygyrchedd. Dywedwyd wrth yr Aelodau y gall fod yn anodd iawn cael datblygwyr i'w derbyn, a lle mae gan y Cyngor hynny'n dweud eu bod yn gwneud eu gorau glas i gyflawni hyn.

Dywedodd Jane Thomas fod y Cyngor yn cyrraedd ei darged mewn perthynas ag addasiadau. Mae'r Gwasanaeth Byw'n Annibynnol, a gaiff ei gyflwyno i ogledd y ddinas cyn bo hir, yn cynnwys addasiadau ac ystod eang o gyngor a gwasanaethau. Mewn perthynas â'r CHA, mae Caerdydd yn edrych ar y genhedlaeth nesaf yn awr, gan edrych ar y bobl ar y rhestrau aros ac edrych ar ba eiddo y gellir eu haddasu ar eu cyfer.

Diolchodd y Cadeirydd iddynt am eu sylwadau a dechreuodd ystyried yr eitem hon.

Cafodd yr Aelodau gyflwyniad ar y Fframwaith Cynnal a Chadw Adeiladau – Materion Rheoli Eiddo Gwag ac wedyn gwahoddodd y Cadeirydd am gwestiynau a sylwadau oddi wrth yr Aelodau;

Roedd Aelodau o'r farn bod pethau wedi mynd yn eithaf anghywir ers cyflwyno'r eitem i'r Pwyllgor y llynedd a gofynnwyd a oedd y Swyddogion yn cytuno â hyn. Roedd swyddogion yn cytuno bod pethau wedi mynd o chwith, ond roedd hyn yn broblem gyda'r contractwyr na ellid bod wedi'u rhagweld; roedd y fframwaith yn iawn. Esboniodd swyddogion fod problemau yn y farchnad o ran talu is-gontractwyr yn y gadwyn gyflenwi.

Gofynnodd yr Aelodau a oedd unrhyw faterion wedi codi gyda R&M Williams o'r blaen ac os oedd swyddogion yn hyderus gyda'r ceisiadau/timau ac ati. Dywedodd swyddogion na fu unrhyw bryderon o'r blaen ac mewn gwirionedd maent yn cyflawni prosiect arall i'r Cyngor yn dda iawn. Ychwanegodd swyddogion y rhoddwyd sylw dyladwy i'r cynigion, a chymerwyd cyngor allanol gan Geldards ond roedd R&M Williams wedi tanbrisio'r contract. Sicrhaodd y swyddogion yr Aelodau fod y fframwaith yn gweithio yn ôl y disgwyl ond ni all y Cyngor sicrhau bod contractwr yn

aros o fewn y contract. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr fod yna fater diwylliant a bod angen i gontractwyr ddeall y byddai cosbau ar berfformiad yn cael eu rhoi ar waith.

Gofynnodd yr Aelodau a oedd addasiadau yn seiliedig ar brawf modd, a dywedwyd wrthynt mai dyna'r sefyllfa, ond nid oedd addasiadau byr iawn yn tueddu i gael eu hystyried gan nad oedd llawer o bobl yn methu'r prawf modd, felly oherwydd costau gweinyddu roeddent yn ystyried cael gwared arnynt.

Gofynnodd Aelodau am daliadau iawndal i bobl sy'n cael addasiad ond wedyn yn cael problemau fel yr angen am ailaddurno. Dywedodd swyddogion y byddent yn delio â hyn drwy'r broses gwyno ac y byddai pob achos yn cael ei ystyried yn unigol.

Gofynnodd yr Aelodau faint o arian mewn rhent y disgwylid ei golli a pha wersi y gellid eu dysgu. Rhoddodd swyddogion ffigwr amcangyfrif o £534,000 ond nododd y byddent yn cadarnhau'r union swm, a chaiff hyn ei dangos yng nghyllideb y flwyddyn nesaf. O ran y gwersi a ddysgwyd, eglurodd swyddogion y byddent yn edrych ar ateb mewnol Abertawe ac yn archwilio achos busnes dros Gaerdydd o bosibl.

Gofynnodd Aelodau a ellid bod wedi rhagweld hyn, gan fod Ian Williams wedi gadael ôl-groniad enfawr y mae angen i gontractwyr eraill ei godi. Esboniodd y swyddogion fod angen iddynt roi terfyn ar un contract er mwyn cychwyn un arall, ac ar ôl i weithredwyr adael mae bylchau'n cael eu gadael ar ôl hynny. Byddai'r contract newydd bellach yn gorgyffwrdd ac yn galluogi amser trosglwyddo i'r contractwr newydd.

Gofynnodd yr Aelodau pam yr oedd ar gontractwyr angen amser 'ymsefydlu' ac esboniodd swyddogion fod angen iddynt gael eu gweithlu ynghyd, cael is-gontractwyr, rhaid i'r Cyngor gynnal asesiadau iechyd a diogelwch gyda hwy a hefyd weithiau roedd materion TUPE i ymdrin â hwy.

Gofynnodd Aelodau am gyfanswm yr eiddo gwag a dywedwyd wrthynt fod 220 o eiddo gwag ar hyn o bryd a allai gymryd rhwng 10-91 diwrnod i'w paratoi.

Gofynnodd yr Aelodau ar ba gyfradd y mae'r eiddo yn dod i mewn ac fe'u cynghorwyd ei bod yn anodd iawn rhagweld, rhai wythnosau mae 5 ac eraill mae 25.

Cyfeiriodd Aelodau at y ffaith bod Calon wedi cymryd 8 o'r eiddo a gofynnodd a oedd hyn yn golygu bod 8 yn llai o eiddo'r Cyngor. Dywedodd y swyddogion eu bod yn dal yn eiddo i'r Cyngor ond ei fod yn ymwneud â'r ffordd y cânt eu defnyddio. Mae Calon yn rhedeg cynllun sy'n defnyddio Eiddo'r Cyngor a'r Sector Rhentu Preifat ar gyfer llety dros dro i deuluoedd digartref.

Gofynnodd yr Aelodau ai hyn oedd yr asesiad gorau yn dilyn rhywbeth a aeth o'i le. Eglurodd swyddogion eu bod wedi bod yn defnyddio cynllun Calon ers blynyddoedd ac mae wedi galluogi Caerdydd i roi'r gorau i ddefnyddio gwestai gwely a brecwast ar gyfer pobl ddigartref; dim ond rhoi 8 eiddo yn y cynllun hwnnw oedd hyn a byddai Calon hefyd yn gwneud y gwaith eiddo gwag.

Cyfeiriodd Aelodau at faterion recriwtio gan ofyn a fyddai Brexit yn effeithio ar hyn ac yn achosi problemau yn y dyfodol. Dywedodd swyddogion ei bod yn anodd rhagweld ond bod yna risg wirioneddol, bod swyddogion yn gweithio gyda chontractwyr i geisio osgoi hyn.

Gofynnodd yr Aelodau sut y gellid lliniaru'r risg o bethau'n mynd o'i le eto ac fe'u cynghorwyd y byddai'r contract newydd yn caniatáu i gontractwyr gymryd cartrefi gwag yn unrhyw le yn y ddinas.

CYTUNWYD: Bod y Cadeirydd ar ran y Pwyllgor yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet yn cyfleu arsylwadau'r Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

24 : Y FFORDD YMLAEN

Trafododd aelodau'r wybodaeth a dderbyniwyd gan nodi nifer o faterion y cytunodd y Cadeirydd fyddai'n cael eu cynnwys yn y llythyrau fyddai'n cael eu hanfon, ar ran y Pwyllgor, i'r Aelodau Cabinet a'r Swyddogion perthnasol.

25 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Dim.

26 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF:

7 Tachwedd 2018 am 4.30pm.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.10 pm